

Bag Ailgylchu Clir

Cesglir y Bag Ailgylchu Clir yn **WYTHNOSOL**. Dylid rhoi'r holl ddefnyddiau sych yn rhydd yn y bag. Peidiwch â rhoi eitemau mewn bagiau ar wahân yn eich bag ailgylchu clir. Mae'r bagiau ailgylchu clir ar gael **AM DDIM** o Swyddfeydd Taliadau'r Cyngor, Y Ganolfan Groeso a Swyddfeydd Post. Am fwy o wybodaeth ewch i www.ceredigion.gov.uk/ailgylchu



- Papur - o sawl math gwahanol gan gynnwys papur newydd, cylchgronau, cyfeirlyfrau, papur ysgrifennu, post sothach ac ati. **(Ni ellir ailgylchu papur wal na phapur gwrthsaim.)**
- Cardbord – bocsys a phacedi.
- Tuniau bwyd, tuniau diod, tuniau bwyd anifeiliaid anwes, caniau aerosol a ffoil alwminiwm. **(Ni ellir ailgylchu pacedi creision.)**
- Cartonau - cartonau sudd a llaeth.
- Plastig (gweler isod am restr o'r hyn sy'n dderbyniol neu beidio).
 - Poteli diodydd a chynhwysyddion bwydydd parod ar gyfer ffwrn.
 - Poteli llaeth a hylif golchi llestri.
 - Cynhwysydd bwyd, haenen lynu, boteli dŵr, diodydd, a siampŵ.
 - Bagiau plastig, leininau biniau.
 - Tybiau margarin, cynhwysydd bwyd ar gyfer y ficro-don.
 - Polystyren: Potiau iogwrt, hambyrddau sbwng ar gyfer cig neu bysgod, bocsys byrgyrs a bocsys wyau, cwpanau coffi peiriant.

Mae'n bwysig fod bob eitem sy'n cael ei ddefnyddio i becynnu bwyd neu ddiod yn lân a sych. Nodwch **NI** ddylid rhoi **GWYDR** yn y bag ailgylchu clir. Ewch ag ef at y banc ailgylchu agosaf. Ni fydd y bag ailgylchu clir yn cael ei gasglu os oes gwydr ynddo.

Gwastraff Bwyd

Cesglir Gwastraff Bwyd yn **WYTHNOSOL**. Gellir rhoi gwastraff bwyd, heb becynnau, boed wedi ei goginio neu beidio i fewn i'r bin gwastraff bwyd. Mae hyn yn cynnwys:



- Ffrwythau a Llysiau
- Cig ac esgyrn
- Pysgod ac esgyrn
- Cynnyrch Llaeth
- Bagiau Tê a Choffi Mâl
- Plisgyn wŷ
- Bwyd sydd wedi dyddio
- Bara a Chacennau
- Gwastraff bwyd
- Olew Llysiau
- Hancesi Papur a Papur cegin.



Ni ddylid defnyddio bagiau plastig i leinio'r bin gwastraff bwyd. Defnyddiwch bapur newydd neu bagiau compostadwy o startsh corn i leinio'r bin. Gellir prynu'r bagiau yn Swyddfeydd Taliadau'r Cyngor, y Ganolfan Groeso neu'r mwyafrif o archfarchnadoedd.

Gwastraff Gweddilliol

Cesglir gwastraff gweddilliol (sach ddu) bob **PYTHEFNOS** ar yr un diwrnod â'r ailgylchu a gwastraff bwyd. Y sach ddu yw'r gobaith olaf os nad oes modd arall i'w ailgylchu! Nodwch, ni dderbynnir niferoedd helaeth o sachau du yn y Safleoedd Gwastraff Cartref. Dewch o hyd i ddiwrnod eich casgliad yn www.ceredigion.gov.uk/ailgylchu

Am fwy o wybodaeth ewch i'n gwefan
www.ceredigion.gov.uk/ailgylchu neu ffoniwch
01545 572572



ailgylchu dros Geredigion
www.ceredigion.gov.uk